**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/124/2024

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

24 Ebrill 2024

Annwyl Peredur,

Mae'n bleser gennyf roi gwybod ichi bod Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi cyhoeddi dau adroddiad dadansoddol sy'n defnyddio data treth incwm i edrych ar fudo.

Mae'r cyhoeddiad cyntaf yn ddadansoddiad o'r set ddata hydredol a gomisiynwyd gan Lywodraethau Cymru a'r Alban. Cafodd ei ariannu ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r Deyrnas Unedig. Mae'r set ddata'n ymdrin â lleoliad ac incwm trethdalwyr y DU dros gyfnod o 12 mlynedd ac mae'n caniatáu dadansoddiad manwl o symudiad trethdalwyr ac incwm o fewn y DU.

Mae'r dadansoddiad yn canfod bod Cymru a'r Alban wedi gweld cynnydd graddol mewn mewnfudiad trethdalwyr net o weddill y DU o 2016-17 ymlaen, gyda chynnydd mwy yn 2020-21 a 2021-22 - o bosibl mewn ymateb i bandemig COVID

Mae'r ail gyhoeddiad, *Exploring impacts of 2018-19 Scottish Income Tax changes on intra-UK migration and labour force participation* yn defnyddio dadansoddiad econometrig i amcangyfrif yr ymatebion i Newidiadau Treth Incwm yr Alban 2018-19. Yn benodol, mae'n amcangyfrif y mudo rhwng yr Alban a rhannau eraill o'r DU, ac a yw pobl wedi ymuno â'r farchnad lafur neu wedi ei gadael. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu y byddai lefelau mudo net i'r Alban ymhlith unigolion sy'n ennill mwy na throthwy'r Gyfradd Uwch wedi bod yn uwch heb y newidiadau i Dreth Incwm yr Alban.

Rwy'n croesawu'r ychwanegiadau hyn i'r sylfaen dystiolaeth. Bydd y dadansoddiad yn helpu i wella'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo effaith y newidiadau i Gyfraddau Treth Incwm Cymru ac a gyhoeddir yng Nghanllaw Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru ochr yn ochr â'n Cyllideb ddrafft. Mae datblygu'r sylfaen dystiolaeth hon hefyd yn darparu gwybodaeth bwysig i helpu i lywio penderfyniadau polisi treth yn y dyfodol.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.